Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Ymchwiliad i fynediad at dechnolegau meddygol: crynodeb o wybodaeth ychwanegol

| **Enw'r tyst/sefydliad** | **Cais y Pwyllgor** | **Ymateb y tyst/sefydliad** |
|---|---|---|
| Karen Samuels, Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan | Nododd Ms Samuels fod yr Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru wedi bod yn monitro'r defnydd a wneir o feddyginiaethau a arfarnwyd gan AWMSG a NICE, a chytunodd i rannu'r papur yn amlinellu canlyniadau'r monitro hwnnw gyda'r Pwyllgor. | Gellir gweld copi o'r papur yma.<br>(MT – AI1 ar y wefan). |
| Dr Phil Webb, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru | Cytunodd Dr Webb i ddarparu nodyn i'r Pwyllgor yn amlinellu un argymhelliad allweddol y byddai Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn ei wneud i'r Pwyllgor mewn perthynas â gwella'r mynediad at dechnolegau meddygol yng Nghymru a sut y gellid cyflawni hyn. | Gellir gweld copi o'r nodyn yma.<br>(MT – AI2 ar y wefan). |
| Emma Greenwood, Ymchwil Canser y DU | Rhoddodd Emma Greenwood wybod i'r Pwyllgor am y cydweithrediad diweddar rhwng Cancer Research UK a GIG Lloegr a oedd yn gofyn i grwpiau perthnasol o fewn y diwydiant sut roeddent yn rhagweld maes radiograffeg mewn deng mlynedd. Cytunodd Ms Greenwood i rannu gwybodaeth am y gwaith hwn gyda'r Pwyllgor. | Gellir gweld copi o'r gwaith yma.<br>(MT – AI3 ar y wefan). |

| | | |
|---|---|---|
| Buddug Cope, Cynghrair Geneteg y DU | Cytunodd Buddug Cope i roi gwybodaeth i'r Pwyllgor am y cyswllt rhwng rhaglen technoleg iechyd NICE a Rhwydwaith Profi Geneteg y DU (UKGTN).<br><br>Cytunodd Ms Cope hefyd i roi eglurhad pellach i'r Pwyllgor am y gydberthynas rhwng cymeradwyo profion newydd gan UKGTN a'u comisiynu wedyn gan GIG yr Alban. | Gellir gweld copi o’r ymateb yma.<br>(MT – AI4 ar y wefan). |
| Lars Sundstrom, Rhwydwaith Gwyddoniaeth Iechyd Academaidd Gorllewin Lloegr | Cytunodd Lars Sundstrom, Rhwydwaith Gwyddorau Iechyd Academaidd Gorllewin Lloegr, i ddarparu nodyn ar y system newydd sydd wedi'i chyflwyno yn Lloegr (sydd ar gael i sefydliadau yng Nghymru), sy'n caniatáu mynediad at gyllid ac yn rhoi ffordd o gomisiynu gwaith ymchwil a datblygu drwy'r system gofal iechyd. | Gellir gweld arolwg o’r system yma.<br>(MT – AI5 ar y wefan). |
| Dr Nazia Hussain, Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol Cymru | Dywedodd y Dr Nazia Hussain y byddai'n darparu:<br>– nodyn am y modd y mae Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol yn ystyried llais cleifion wrth ddatblygu ei ddulliau gweithredu yn achos technolegau ac arloesedd, a'r modd y mae'r Coleg yn credu y dylai llais cleifion gael ei ystyried yn y broses arfarnu a chomisiynu; | Gellir gweld copi o’r nodyn yma.<br>(MT – AI6 ar y wefan). |

| | | |
|---|---|---|
| | – nodyn yn egluro a yw'r defnydd o dechnolegau meddygol yn rhan o'r broses ailddilysu ar gyfer meddygon teulu, neu a fydd yn rhan o'r broses. | |